

Dysgu yn yr Awyr Agored ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

CYFNOD SYLFAEN | CYFNOD ALLWEDDOL 1/2 | ADDYSG UWCHRADD AC UWCH



Dysgu yn yr Awyr Agored ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Gall ein tîm Addysg proffesiynol ddysgu ystod o gyrsiau i bob oedran, wedi'u teilwra i gwrdd ag anghenion eich disgyblion. Gallwn ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ein holl weithgareddau wedi eu hasesu o ran perygl. Rydym wedi ein trwyddedu gan yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur (Adventurous Activities Licensing Authority).

Cost

£6.00 y disgybl

10.00am – 2.30pm

Cysylltwch

Cysylltwch â'r Tîm Addysg am ragor o

wybodaeth ac i deilwra'ch ymweliad:

educationemail@beacons-npa.gov.uk

01874 624437

Gwnewch yn fawr o'ch diwrnod dysgu yn yr awyr agored mewn lleoliadau syfrdanol ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol

Mae gennym adnoddau Ysgol Gynradd i gefnogi athrawon er mwyn ymgorffori dysgu yn yr awyr agored yn rhan o gwricwlwm yr ysgol. Helpwch eich disgyblion i ddod yn hyderus wrth ddefnyddio tiroedd eu hysgol, eu hardal leol a'u Parc Cenedlaethol. Beth am ddod yn Ysgol Llysgennad y Parc Cenedlaethol heddiw!?

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, am ragor o wybodaeth:
educationemail@beacons-npa.gov.uk



Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, ger Aberhonddu LD3 8ER

Mae ein canolfan ymwelwyr ger Libanus yn cynnig golygfeydd estynedig ar draws Bannau Brycheiniog a'r Parc Cenedlaethol. Mae'r lleoliad hwn yn cynnig mynediad hawdd i brofiad mynydd yn y Parc Cenedlaethol ac mae o fewn cyrraedd hwylus i gyfleusterau.



Cyfnod Sylfaen

Picnic Tedi Bêrs

Dewch â'ch tedis a chewch ddysgu am gynefinoedd.

Rhodianna Rhyfeddol

Dewch i fforio a chysylltu â'ch amgylchfyd syfrdanol.

Celf yn y Parc

Ewch allan i'r awyr agored a chael eich ysbrydoli i greu eich celfyddyd eich hun!

Helpa creaduriaid bychain a Throchi mewn Pwll

Pwy sy'n byw yma? Canfod, adnabod a chofnodi amrywiaeth o greaduriaid yn eu cynefinoedd.

Cyfnod Allweddol 2

Taith Ucheldir yn y Parc

Cenedlaethol

Taith gerdded hwylus gyda golygfeydd gwych. Mae'n hawdd dysgu pam fod Bannau Brycheiniog yn Barc Cenedlaethol!

Map a Chwmpawd/Geogelcio

Defnyddiwch fap, chwmpawd a GPS i chwilio'ch ffordd o gwmpas tir y ganolfan ac i fyni'r bryn i geisio trysor.

Mythau a chwedlau'r Parc

Cenedlaethol

Dewch i ddarganfod mwy am y Parc Cenedlaethol a chewch ddod â'r straeon yn fyw!

Diwrnod Celtaidd a Rhufeinig


Dysgu ymarferol dan do a thu allan! Cerddwch i fryngaer er mwyn ail-greu brwydr. (Gwiriwch fod hyn ar gael)



Parc Gwledig Craig-y-nos

Penycae SA9 IGL

Mae Parc Gwledig Craig-y-nos mewn lleoliad cysgodol ychydig oddi ar yr A465 yng nghwm uchaf Abertawe. Mae'r safle 40 erw hwn yn lle perffaith i'w archwilio gan fod yma goetiroedd, dolydd, afonydd ac ucheldiroedd gyda mannau dysgu dan do ac awyr agored o fewn cyrraedd hwylus i bob un ohonynt.



Cyfod Sylfaen / Cyfod Allweddol 1

Picnic Tedi Bêrs

Dewch â'ch tedi a chewch ddysgu am gynefinoedd.

Rhodianna Rhyfeddol

Dewch i fforio a chysylltu â'ch amgylchfyd syfrdanol.

Celf yn y Parc

Ewch allan i'r awyr agored a chael eich ysbrydoli i greu eich celfyddyd eich hun!

Anifeiliaid coetir a'u cartrefi

Pwy sy'n byw yma a beth sydd ei angen arnynt i oroesi? Dewch i ymchwilio lleoedd arbennig lle gall creaduriaid fyw a ffynnu.

Helpa creaduriaid bychain/ Trochi mewn Pwll

Canfod, adnabod a chofnodi amrywiaeth o greaduriaid yn ein cynefinoedd cyferbyniol.



Cyfod Allweddol 2

Ymchwilio i Afonydd

Bydd y disgyblion yn ymchwilio i Afon Tawe mewn sawl lleoliad ar hyd ei thaith. (Ar gael Mawrth – Hydref)

Coetiroedd

Cewch astudio'r coetiroedd cyferbyniol yn y Parc Gwledig a dysgu am goed – dewch i ddarganfod eu hunaniaeth, eu huchder, eu hoed a'u defnydd.

Taith i'r Ucheldir

Dewch i archwilio'r brynau cyfagos er mwyn dysgu am dirlun a hanes yr ardal.

Adeiladu Lloches

Heriwch eich dosbarth gydag ystod o weithgareddau meithrin tîm er mwyn canolbwyntio ar yr hanfodion ar gyfer gores.

Cyfeiriannu

Dewch i ddysgu sgiliau map gan ddefnyddio ein cysiau cyfeiriannu dros dro a pharhaol.

Map a Chwmpawd

Dewch i ddysgu sgiliau llywio yng nghyffiniau cysgodol y Parc Gwledig.

Geogelcio

Cewch ddefnyddio uned GPS, map a chliwiau i hela am drysor.

Mythau a chwedlau

Dewch i ddarganfod mwy am y Parc Cenedlaethol a chewch ddod â'r straeon yn fyw!



Canolfan Breswyl ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored yn y Parc Cenedlaethol

YHA Bannau Brycheiniog Danywenallt, Tal-y-bont ar Wysg LD3 7YS



Mae Danywenallt, sy'n swatio ger cronfa ddŵr Tal-y-bont ar Wysg lle ceir mynediad uniongyrchol i Lwybr Taf, llwybrau ceffylau, llwybrau troed a bryniau, yn ffermdy wedi'i addasu ac mae'n darparu cartref gwych ar gyfer ein cyrsiau preswyl o safon uchel. Darperir y bwyd a gofal y tŷ gan yr YHA. Arhoswch am 2 noson neu fwy. Yn ystod eich arhosiad gallwch gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

Gweithgareddau

- + Croeso i Gemau Meithrin Tîm y Parc Cenedlaethol
- + Her Goroesi fel Tîm
- + Taith gerdded ar fynydd yn yr Ucheldir
- + Rhodianna Rhyfeddol
- + Mamaliaid
- + Geogelcio
- + Map a chwmpawd
- + Taith gerdded ar hyd y Gamlas a'r Afon
- + Taith gerdded ger Rhaeadrau (bydd angen eich trafndiaeth eich hun arnoch)

Cost /Cysylltwch

Cost

Cost y gweithgareddau fesul diwrnod:
£12.50 / £15.00

Sesiwn gyda'r nos trwy drefniant:
£6.25 / £7.50

Cysylltwch

Cysylltwch â'r Tîm Addysg am ragor o wybodaeth ac i deilwra'ch ymweliad:
educationemail@beacons-npa.gov.uk
01874 624437

